



## **DINAS A SIR ABERTAWE**

### **GWASANAETH PARCIO**

## **ADRODDIAD BLYNYDDOL AR GYFER 2015-16**

### **1 Cyflwyniad**

- 1.1 Ar 1 Medi 2008, dynodwyd Dinas a Sir Abertawe'n Ardal Gorfodi Sifil ar gyfer Tramgwyddau Parcio ac yn Ardal Gorfodi Arbennig gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Tynnwyd y cyfrifoldeb dros orfodi tramgwyddau parcio 'ar y stryd' oddi wrth Heddlu De Cymru gan roi'r cyfrifoldeb ar y cyngor.
- 1.2 Mae'r ddogfen hon yn adrodd am berfformiad y gwasanaeth o 1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2016, sef blwyddyn ariannol 2015/16. Mae'r adroddiad yn nodi perfformiad gweithredoedd gorfodi mewn meysydd parcio ac ar y stryd.
- 1.3 Yn unol â'r pwerau sy'n deillio o Adran 6 Deddf Rheoli Traffig 2004, mae'r newidiadau canlynol i weithredoedd parcio yn Ninas a Sir Abertawe wedi cael eu rhoi ar waith:

Swyddogion Gorfodi Sifil sy'n gyfrifol am orfodi rheoliadau parcio. Byddant yn cyflwyno'r hysbysiad naill ai ar y cerbyd neu i'r person y maent yn credu oedd yn gyrru ar adeg y tramgwydd. Fodd bynnag, pan fo ymddygiad y gyrrwr at y Swyddog Gorfodi Sifil yn ei atal rhag cyflwyno'r hysbysiad yn y modd hwn, neu os yw'n gyrru ymaith cyn i'r swyddog gael cyfle i gyflwyno'r hysbysiad, cyflwynir yr hysbysiad drwy'r post. Gall ein cerbyd camera CCTV hefyd nodi tramgwyddau; yna adolygir y tramgwyddau gan Swyddog Gorfodi Sifil cymwys ac anfonir yr hysbysiadau cosb drwy'r post at geidwad cofrestredig y cerbyd.

Mae'r taliadau cosb yn amrywio, gan ddibynnu ar y tramgwydd: ceir dirwy o £70 am dramgwyddau lefel uwch, neu £35 os caiff ei thalu o fewn 14 diwrnod, a cheir dirwy o £50 am dramgwyddau lefel is, neu £25 os caiff ei thalu o fewn 14 diwrnod. Pennir lefel côd tramgwydd gan ddeddfwriaeth yn hytrach na'r cyngor. Fel arfer, mae parcio mewn lleoliad lle na chaniateir hynny, fel llinell felen, yn dramgwydd lefel uwch; mae aros yn rhy hir mewn lleoliad lle caniateir parcio, fel man aros cyfyngedig, yn

dramgwydd lefel is. Nodir dadansoddiad llawn o'r tramgwyddau fesul categori isod yn yr adroddiad am orfodi oddi ar y stryd (meysydd parcio) ac ar y stryd.

Mae'n rhaid ymateb i sylwadau ffurfiol o fewn 56 diwrnod. Fodd bynnag, mae'r cyngor yn ymdrechu i ymateb o fewn 14 diwrnod.

Er bod gan y cyngor bolisi cadarn ac eglur ynghylch diddymu hysbysiadau o dâl cosb ar ôl derbyn heriau neu sylwadau, y Tribiwnlys Cosbau Traffig sydd â'r dyfarniad terfynol ar bob apêl ac mae'r cyngor yn cydweithio'n llwyr â'r tribiwnlys. Mae'r tribiwnlys yn wasanaeth dyfarnu annibynnol am ddim y gall modurwyr ei ddefnyddio ar ôl cam sylwadau ffurfiol y broses apelio.

Perchennog y cerbyd sy'n gyfrifol am dalu'r hysbysiad o dâl cosb. Cyfeirir hysbysiadau nad ydynt wedi'u talu i'r Ganolfan Gorfodi Traffig yn Llys Sirol Northampton sy'n gyfrifol am gyflwyno gorchmynion i adennill dyledion. Trosglwyddir y gorchmynion hyn i asiantaeth orfodi sydd â'r awdurdod i adennill y ddyled ar ran y cyngor.

- 1.4 Ac eithrio gofynion deddfwriaethol Deddf Rheoli Traffig 2004, mae'n rhaid i'r gwasanaeth hefyd sicrhau y cydymffurfir yn llawn â'r Offerynnau Statudol/Rheoliadau canlynol a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru, sydd ar gael i'w gweld yn <http://www.legislation.gov.uk>

Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) 2013.

Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd (Sylwadau ac Apelau) (Cymru) 2013.

Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) 2013

Gorchymyn Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Canllawiau ar Lefelau Taliadau) (Cymru) 2013

Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd (Sylwadau ac Apelau) Cerbydau a Symudwyd Ymaith (Cymru) 2013

Rheoliadau Swyddogion Gorfodi Sifil (Gwisgo Lifrai) (Cymru) 2008

Rheoliadau Symud Ymaith a Gwaredu Cerbydau (Diwygio) (Cymru) 2008

- 1.5 Mae'n rhaid i'r gwasanaeth hefyd sicrhau bod ein hasiantiaid gorfodi, a benodir i adennill hysbysiadau o dâl cosb sydd heb eu talu, yn cydymffurfio â:

Rheoliadau Meddiannu Nwyddau 2013; a

## Rheoliadau Meddiannu Nwyddau (Ffioedd) 2014

Gellir gweld y rheoliadau hyn hefyd yn <http://www.legislation.gov.uk>

- 1.6 Cyn y gellir gorfodi unrhyw beth, bydd yn rhaid cyflwyno Gorchymyn Rheoleiddio Traffig a fydd yn datgan graddau'r cyfyngiad sydd ar waith yn glir. Gellir gweld y gorchymynion hyn drwy'r ddolen ganlynol ar wefan y Tribiwnlys Cosbau Traffig.  
<http://tro.parking-adjudication.gov.uk>
- 1.7 Cyhoeddwyd arweiniad statudol gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol ynghylch gorfodi sifil ar dramgwyddau parcio sy'n gofyn bod pob awdurdod lleol yn llunio adroddiad blynyddol. Mae'r adroddiad hwn yn rhan bwysig o atebolrwydd a bydd yr eglurder a geir drwy adroddiadau rheolaidd a chyson yn helpu aelodau etholedig a'r cyhoedd i ddeall y prosesau a ddefnyddir i reoli parcio ar draws Dinas a Sir Abertawe.
- 1.8 Mae tudalennau canlynol yr adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am weithgareddau ar y stryd ac oddi ar y stryd yn ystod y cyfnod adrodd ac yn cwmpasu rhoi hysbysiadau o dâl cosb, ymdrin â gohebiaeth, gan gynnwys apeliadau a chwynion, lefelau staffio a manylion gwariant ac incwm. Ceir mwy o wybodaeth am y Gwasanaethau Parcio yn <http://www.abertawe.gov.uk/parcio>, sy'n cynnwys dolen i adroddiadau blynyddol blaenorol.

## 2 Parcio Oddi ar y Stryd

- 2.1 Mae gan Ddinas a Sir Abertawe gyfanswm o 53 o feysydd parcio wedi'u rhestru yng Ngorchymyn Cyfunol Dinas a Sir Abertawe (Mannau Parcio oddi ar y Stryd) (Talu ac Arddangos) 2008. Fodd bynnag, mae dau faes parcio - Teras Clarence a The Bush - wedi cau ers hynny ac mae Maes Parcio'r Santes Fair wedi'i gyflwyno.
- 2.2 Mae tri maes parcio aml-lawr yng nghanol y ddinas lle mae'n rhaid talu wrth adael, ond mae'r meysydd parcio eraill yn rhai talu ac arddangos. Yn ogystal, ceir tri maes parcio a theithio ar gyrion y ddinas sy'n gweithredu fel meysydd parcio talu ar droed.
- 2.3 Yn ogystal â rôl orfodi, mae'r Is-adran Gwasanaethau Parcio'n gyfrifol am weinyddu a chynnal a chadw pob maes parcio'n effeithiol.
- 2.4 Mae 86 o orsafoedd talu ar draws y ddinas a'r sir a chaiff y rhain eu cynnal a'u cadw gan staff sydd hefyd yn gyfrifol am gasglu a chysoni'r arian parod o'r peiriannau hyn. Yn ystod blwyddyn ariannol 2015/16, y cyfanswm oedd £3,161,826, gan gynnwys tocynnau tymor, parcio gan staff ac incwm amrywiol arall.

2.5 Mae taliadau meysydd parcio'n amrywio a dynodir meysydd parcio'n rhai 'arhosiad hir', 'arhosiad byr', 'blaendraeth' a 'maestrefol'. Yn ogystal, mae tri maes parcio ar ddeg am ddim. Mae dau faes parcio wedi'u clustnodi ar gyfer deiliaid tocyn tymor yn unig ac mae un ar gyfer deiliaid bathodyn glas yn unig.

2.6 Yn ystod y cyfnod adrodd, cyflwynwyd cyfanswm o 8,587 o hysbysiadau o dâl cosb am dramgwyddau yn ein meysydd parcio. Mae Tabl 1 isod yn nodi'r tramgwyddau amrywiol, wedi'u rhannu rhwng tramgwyddau graddfa uwch (£70) a thramgwyddau graddfa is (£50). Gwelir bod y nifer mwyaf o dramgwyddau'n gysylltiedig â pheidio ag arddangos tocyn parcio'n glir – gan mwyaf bydd hyn yn golygu nad yw taliad wedi'i wneud.

Tabl 1

<b>Côd y Tramgwydd</b>	<b>Tramgwydd</b>	<b>Nifer yr hysbysiadau o dâl cosb a gyflwynwyd</b>
<b>Graddfa Uwch</b>		
70	Parcio mewn man llwytho	6
81	Parcio mewn ardal gyfyngedig	56
85	Parcio mewn cilfach i hawlenni	1,092
87	Parcio heb fathodyn mewn lle i bobl anabl	545
89	Maint anghywir o gerbyd	1
91	Dosbarth anghywir o gerbyd	2
92	Rhwystro	1
	<b>Cyfanswm:</b>	<b>1,703</b>
<b>Graddfa Is</b>		
73	Parcio heb dalu	2
80	Parcio am gyfnod hwy na'r hyn a ganiateir	3
82	Parcio ar ôl yr amser y talwyd amdano	1,598
83	Parcio heb arddangos tocyn yn glir	4,829
86	Parcio y tu hwnt i farciau'r gilfach	448
93	Parcio mewn maes parcio oedd ar gau	4
	<b>Cyfanswm:</b>	<b>6,884</b>
	<b>Cyfanswm y cyfan:</b>	<b>8,587</b>

### 3 Parcio ar y Stryd

- 3.1 Yn ogystal â thopograffeg a maint Dinas a Sir Abertawe, mae'r amrywiaeth o orchmynion parcio sydd ar waith yn creu her go iawn i staff gorfodi wrth reoli parcio ar y stryd.
- 3.2 Mae gweithrediadau parcio yn y ddinas a'r sir yn cynnwys gorfodi parthau parcio a reolir fel canol y ddinas, Sandfields, St Thomas a'r Parc Menter, nifer mawr o gynlluniau parcio i breswylwyr â hawlenni, mannau parcio â chyfyngiadau amser, cilfachau i'r anabl a llwytho, cilfachau talu ac arddangos, a llawer o linellau melyn sengl a dwbl.
- 3.3 Ym mis Ionawr 2015, cyflwynodd yr awdurdod gerbyd gorfodi â camera CCTV er mwyn helpu lle na fu dulliau traddodiadol o orfodi ar droed yn effeithiol o ran cyflawni ein nod o leihau tramgwyddau parcio i sicrhau bod diogelwch ffyrdd yn gwella a lleihau nifer y tagfeydd. Cyn cyflwyno'r cerbyd, cynhaliwyd ymgyrch gyhoeddusrwydd eang, gan gynnwys rhoi taflenni i bob disgybl ysgol.
- 3.4 Yn ystod y cyfnod adrodd, rhoddwyd 33,757 o hysbysiadau o dâl cosb ar y stryd, gan gynnwys 8,144 o ganlyniad i CCTV. Dengys Tabl 2 isod y tramgwyddau amrywiol yn ystod y cyfnod adrodd, wedi'u rhannu rhwng tramgwyddau graddfa uwch (£70) a thramgwyddau graddfa is (£50). Fel y gwelir, mae'r nifer mwyaf o dramgwyddau'n ymwneud â pharcio mewn strydoedd cyfyngedig (h.y. ar linellau melyn dwbl neu sengl), parcio am gyfnod hwy na'r hyn a ganiateir a pharcio mewn cilfachau preswylwyr heb arddangos hawlen. Cyflwynwyd 3,995 o docynnau o ganlyniad i gamau gorfodi CCTV am stopio mewn safle bws cyfyngedig, rhywbeth y mae'r cyngor yn ystyried yn amhriodol iawn oherwydd y pryderon diogelwch amlwg a'r anghyfleustra i wasanaethau bws a theithwyr.

Tabl 2

Côd y Tramgwydd	Tramgwydd	Nifer yr hysbysiadau o dâl cosb a gyflwynwyd
<b>Graddfa Uwch</b>		
01	Parcio ar ffordd gyfyngedig	4,621
02	Llwytho mewn stryd gyfyngedig	2,033
02J	Llwytho mewn stryd gyfyngedig - CCTV	2,636
12	Parcio mewn cilfach breswylwyr	5,173
14	Parcio mewn man trydan	1
16	Parcio mewn lle i hawlenni	724

21	Parcio mewn cilfach ohiriedig	10
23	Dosbarth anghywir o gerbyd	20
25	Parcio mewn cilfach lwytho	2,618
26	Parcio dwbl	52
27	Troedffordd isel	371
40	Lle parcio i berson anabl	1,385
45	Safle tacsis	394
45J	Safle tacsis – CCTV	16
46	Clirffordd	54
46J	Clirffordd – CCTV	279
47	Safle bws cyfyngedig	195
47J	Safle bws cyfyngedig - CCTV	3,995
48	Ardal ysgol gyfyngedig	54
48J	Ardal ysgol gyfyngedig - CCTV	427
49	Llwybr neu lôn feicio	2
62	Parcio ar droedffordd	1
99	Croesfan i gerddwyr	70
99J	Croesfan i gerddwyr - CCTV	790
	<b>Cyfanswm:</b>	<b>25,921</b>
<b>Graddfa Is</b>		
05	Parcio ar ôl yr amser y talwyd amdano	254
06	Parcio heb arddangos tocyn talu ac arddangos neu daleb yn glir	2,219
07	Bwydo'r mesurydd	1
10	Parcio heb arddangos tocyn yn glir 2	1
11	Parcio heb dalu	3
19	Parcio mewn cilfach preswylwyr neu mewn cilfach defnydd a rennir gan ddangos hawlen annilys	583
22	Ailbarcio o fewn amser gwaharddedig	265
24	Heb barcio'n gywir	115
24J	Heb barcio'n gywir – CCTV	1
30	Parcio am gyfnod hwy na'r hyn a ganiateir	4,392
	<b>Cyfanswm:</b>	<b>7,834</b>
	<b>Cyfanswm y cyfan:</b>	<b>33,755</b>

#### 4 Crynodeb o'r holl hysbysiadau o dâl cosb a gyflwynwyd

	Oddi ar y Stryd		Ar y Stryd		CCTV Uwch	Cyfanswm		Cyfanswm
	Uwch	Is	Uwch	Is		Uwch	Is	
<b>Ebrill</b>	117	619	1,344	394	704	2,165	1,013	<b>3,178</b>
<b>Mai</b>	114	566	1,250	276	1,254	2,618	842	<b>3,460</b>
<b>Mehefin</b>	122	527	1,094	463	762	1,978	990	<b>2,968</b>
<b>Gorffennaf</b>	112	683	1,422	804	185	1,719	1,487	<b>3,206</b>
<b>Awst</b>	99	390	1,294	562	231	1,624	952	<b>2,576</b>
<b>Medi</b>	103	399	1,335	713	585	2,023	1,112	<b>3,135</b>
<b>Hydref</b>	156	640	1,996	828	1,139	3,291	1,468	<b>4,759</b>
<b>Tachwedd</b>	225	830	2,107	901	285	2,617	1,731	<b>4,348</b>
<b>Rhagfyr</b>	177	615	1,443	677	1,110	2,730	1,292	<b>4,022</b>
<b>Ionawr</b>	190	548	1,738	883	849	2,777	1,431	<b>4,208</b>
<b>Chwefror</b>	148	595	1,526	879	673	2,347	1,474	<b>3,821</b>
<b>Mawrth</b>	140	471	1,229	454	367	1,736	925	<b>2,661</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,703</b>	<b>6,883</b>	<b>17,778</b>	<b>7,834</b>	<b>8,144</b>	<b>27,625</b>	<b>14,717</b>	<b>42,342</b>

**Uwch = tramgwyddau £70 Is = tramgwyddau £50**

#### 5 Staffio

5.1 Roedd staffio yn ystod 2015/16 fel a ganlyn:

- 1 Rheolwr Gwasanaethau Parcio
- 1 Dirprwy Reolwr Gwasanaethau Parcio
- 1 Goruchwyliwr Swyddogion Gorfodi Sifil
- 1 Goruchwyliwr Prosesu PCN/Swyddfa Gefn
- 4 Uwch-swyddog Gorfodi Sifil
- 3 Ariannwr/Swyddog Gorfodi Sifil
- 25 Swyddog Gorfodi Sifil
- 7 Staff Prosesu PCN/Swyddfa Gefn (CALI)
- 1 Goruchwylydd Maes Parcio
- 7 Goruchwylydd Parcio a Theithio

5.2 Dylid nodi bod tri o'r swyddogion gorfodi sifil ac un uwch-swyddog gorfodi sifil yn gyfrifol am gynnal y meysydd parcio o ddydd i ddydd yn hytrach na chyflawni dyletswyddau gorfodi yn ystod y flwyddyn.

## 6 Gohebiaeth

- 6.1 Hawl pob gyrrwr neu berchennog yw'r hawl i herio dilysrwydd hysbysiad o dâl cosb neu i gyflwyno rhesymau lliniarol pam na ddylai orfod talu'r hysbysiad o dâl cosb. Nodir y broses herio/apelio yn y ddeddfwriaeth a cheir gwybodaeth am y broses hon ar wefan y cyngor - <http://www.abertawe.gov.uk/parcio>. Mae'r wefan hefyd yn cynnwys manylion sail statudol dros ddiddymu hysbysiad gan nodi'r rhesymau lliniarol a'r dystiolaeth ofynnol i roi pob cyfle i'r sawl sy'n apelio gyflwyno'r wybodaeth angenrheidiol.
- 6.2 Mae arweiniad clir a llawn gwybodaeth i sicrhau bod tîm swyddfa gefn y cyngor (sy'n cynnwys goruchwyliwr, tri aelod o staff amser llawn a chwe aelod o staff rhan-amser) yn ymdrin â'r holl ohebiaeth a dderbynnir mewn modd cyson ac eglur.
- 6.3 Mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar y cyngor i ystyried ac ymateb i ohebiaeth ar unrhyw gam o'r broses ac mae'n ofynnol, yn ôl y ddeddfwriaeth, anfon ymatebion yn brydlon. Er mai'r gofyniad cyfreithiol yw darparu ymateb o fewn cyfnod o 56 diwrnod, mae'r cyngor yn ymdrechu i ymateb i bob her o fewn 14 diwrnod. Yn anffodus, oherwydd nifer yr apelïadau a dderbynnir, yn achlysurol gall fod angen hwy na 14 diwrnod i ymateb.
- 6.4 Yn ystod y cyfnod adrodd, cofnodwyd yn ein system rheoli achosion fod 22,736 eitem o ohebiaeth a oedd yn ymwneud yn benodol â gorfodi parcio sifil (CPE) wedi'u derbyn. Mae'r manylion fel a ganlyn:

CPE - Gohebiaeth - HALIO YMAITH - Dim angen ymateb	10
CPE - Gohebiaeth - Derbyniwyd Canlyniad Tribiwnlys Cosbau Traffig	223
CPE - Gohebiaeth - E-bost	10
CPE - Gohebiaeth - Dogfen gyffredinol	1,446
CPE - Gohebiaeth - Dogfen gyffredinol - Dim ymateb	2,094
CPE - Gohebiaeth - Ffurflen HS3 - dim angen ymateb	16
CPE - Gohebiaeth - Datganiad tyst o fewn y cyfyngiad amser	154
CPE - Gohebiaeth - N244	30
CPE - Gohebiaeth - Ar ôl Tystysgrif Tâl	677
CPE - Gohebiaeth - Ar ôl Tystysgrif Tâl - Meysydd Parcio	18
CPE - Gohebiaeth - Ar ôl Rhybudd i'r Perchennog (NTO)	1,962
CPE - Gohebiaeth - Ar ôl NTO - Car	60
CPE - Gohebiaeth - Cyn NTO - Car	392
CPE - Gohebiaeth - Cyn NTO - Cyswllt	6



CPE - Gohebiaeth - Cyn NTO - Post	6,656
CPE - Gohebiaeth – Canolfan Gorfodi Traffig OOT ac N244	207
CPE - Gohebiaeth - Canlyniad y Ganolfan Gorfodi Traffig	281
CPE - Gohebiaeth – Apêl Tribiwnlys Cosbau Traffig	183
CPE - Gohebiaeth e-bost - CCTV - Ar ôl Tystysgrif Tâl	257
CPE - Gohebiaeth e-bost - CCTV - Ar ôl NTO	944
CPE - Gohebiaeth llythyr gwag cyffredinol	163
CPE - Gohebiaeth drwy'r post - CCTV - Ar ôl Tystysgrif Tâl	268
CPE - Gohebiaeth drwy'r post - CCTV - Ar ôl NTO	857
CPE - Datganiad y Tu Hwnt i'r Terfyn Amser (OOT) pan fo achos heb gyrraedd y beili	12
CPE - Gohebiaeth - Datganiad OOT pan fo achos gyda'r beili	281
CPE - TPT - Dyddiad Gwrandawriad Personol	24
CPE - TPT - Dyddiad Gwrandawriad Ffôn	12
Gohebiaeth - Derbyniwyd ymateb VQ615 gan y DVLA	3
Gohebiaeth - Derbyniwyd ymateb VQ616 gan y DVLA	93
Sylwadau ar-lein ar ôl NTO	1,154
Her ar-lein cyn NTO	4,149
Cais am ffurflen VQ616 gyda'r DVLA	94

Cyfanswm: 22,736

6.5 Anfonwyd 48,051 darn o ohebiaeth yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r manylion fel a ganlyn:

Lonydd bysus - PCN/NTO	21
Lonydd bysus - Hysbysiad o Rybudd	2,012
CCTV - Gwrthod	241
CCTV - Gwrthod - Gostyngiad wedi'i gynnig	774
CCTV - Gwrthodwyd - Angen taliad llawn	43
CPE - Llythyr cydnabod	1,479
CPE - Pecyn achos	40
CPE - CCTV – Tystysgrif Tâl	2,265
CPE - CCTV - PCN	9,024
CPE - CCTV - Rhybudd	12
CPE - CCTV PCN - Derbyn - Cerbyd hurio	242
CPE - Tystysgrif Tâl	2
CPE - Barnwr Rhanbarth - Gwthdroi llythyr	8
CPE - Her Ychwanegol - Dim cynnydd	79
CPE - Datganiad Tyst Hwyr	259

CPE - Ddim yn byw yng nghyfeiriad y llythyr mwyach	63
CPE - Dim taliad	1
CPE – Y Tu Hwnt i'r Terfyn Amser - Gwrthodwyd - Talu	167
CPE - Danfon dogfen	10
CPE - Danfon e-bost	607
CPE - Danfon llythyr tandaliad	1
CPE - Derbyniwyd Taliad	4
CPE - Ar ôl Tystysgrif Tâl - Derbyn yn gyffredinol	99
CPE - Ar ôl Tystysgrif Tâl - Derbyn yn gyffredinol - Gwrthod yn gyffredinol	406
CPE - Ar ôl CCTV PCN - Derbyn - Car Hurio - Dim dogfennau	75
CPE - Ar ôl Rhybudd i'r Perchennog (NTO) - Derbyn - Unrhyw benderfyniad arall	744
CPE - Ar ôl NTO - Derbyn - Camgymeriad gan swyddog gorfodi sifil	112
CPE - Ar ôl NTO - Derbyn - Dim tramgwydd	7
CPE - Ar ôl NTO - Derbyn - Cwmni hurio	7
CPE - Ar ôl NTO - Derbyn - Tro annilys	2
CPE - Ar ôl NTO - Derbyn - Nid y ceidwad - dim dogfennau	49
CPE - Ar ôl NTO - Derbyn - Nid y ceidwad - gyda dogfennau	46
CPE - Ar ôl NTO - Derbyn - Cerbyd hurio	244
CPE - Ar ôl NTO - Derbyn - Car hurio - Dim dogfennau	331
CPE - Ar ôl NTO - Derbyn - Talwyd yn llawn	19
CPE - Ar ôl NTO - Derbyn - Problem gydag arwyddion	7
CPE - Ar ôl NTO - Derbyn - Amhriodoldeb gweithdrefnol	2
CPE - Ar ôl NTO - Gwrthod	534
CPE – Ar ôl NTO – Gwrthod – Gostyngiad wedi'i gynnig	654
CPE - Ar ôl Tribiwnlys Cosbau Traffig (TPT) - Rhaid talu	44
CPE - Cyn NTO - Derbyn – Unrhyw benderfyniad arall	3,641
CPE - Cyn NTO - Derbyn – Camgymeriad gan swyddog gorfodi sifil	131
CPE - Cyn NTO - Derbyn – Dim tramgwydd	3
CPE – Cyn NTO – Derbyn – Cwmni Hurio	3
CPE - Cyn NTO - Derbyn - Tro annilys	2
CPE - Cyn NTO - Derbyn – Nid y ceidwad	2
CPE - Cyn NTO - Derbyn – Talwyd yn llawn	3
CPE - Cyn NTO - Derbyn - Problem gydag arwyddion neu linellau	15
CPE - Cyn NTO - Derbyn - Amhriodoldeb gweithdrefnol	1
CPE – Cyn NTO – Derbyn – Meddiannwyd y cerbyd heb ganiatâd	4
CPE - Cyn NTO - Gwrthod	3,507
CPE - Cyn NTO - Gwrthod – Parth a Reolir	75
CPE - Cyn NTO - Gwrthod – Maes Parcio Salubrious Place	110
CPE - Cyn NTO - Gwrthod – Stryd y Gwynt	52
CPE - Rheoliad 10 Cerbyd yn gyrru i ffwrdd	7

CPE – Talu fesul cam - Cynnig	1
CPE - TE3 TE9	4,102
CPE – Canolfan Gorfodi Traffig (TEC) - Derbyn - OOT	7
CPE - TEC - Gwrthod - OOT	260
CPE - TPT – PCN gwag	67
CPE - TPT – Crynodeb achos - 1 PCN	119
CPE - TPT – Llythyr at yr apelydd	104
CPE - TPT – Ffurflen Dim Gwrthwynebiad	99
CPE - TPT - Cais am ohiriad	24
DPE – Dim dogfen wedi'i hatodi	2
Cymru – Tystysgrif Tâl	5,056
Cymru – Rhybudd i'r Perchennog	8,913
Cymru – Llythyr cyn cofrestru dyled	1,000
Cymru - PCN NTO Rheoliad 10	5

Cyfanswm: 48,051

- 6.6 Roedd yr heriau a'r sylwadau (apeliadau) a gyflwynwyd o fewn y broses apelio 56 diwrnod arferol fel a ganlyn (dylid nodi mai canlyniad achosion unigol yw'r crynodeb isod; fodd bynnag, gall fod gan bob achos sawl eitem o ohebiaeth, fel a ddangosir uchod):

	<b>Apeliadau</b>		
	<b>Derbyniwyd</b>	<b>Gwrthodwyd</b>	<b>Cyfanswm</b>
Heriau anffurfiol (Cyn Rhybudd i'r Perchennog)	3,805	3,744	<b>7,549</b>
Sylwadau ffurfiol (Ar ôl Rhybudd i'r Perchennog)	1,429	2,629	<b>4,058</b>
<b>Cyfanswm:</b>	<b>5,234</b>	<b>6,373</b>	<b>11,607</b>

- 6.7 Y tu allan i'r broses apelio arferol, derbyniwyd 505 o lythyrau ar ôl i'r Dystysgrif Tâl gael ei hanfon; er nad oes rhaid i'r cyngor ystyried amgylchiadau lliniarol, penderfynwyd diddymu 99 o achosion ychwanegol yn ystod y cam hwn.
- 6.8 Os gwrthodir sylwadau ffurfiol, caiff y modurwr gyfle i fynd â'i achos i'r Tribiwnlys Cosbau Traffig, sy'n wasanaeth dyfarnu annibynnol am ddim. Yn ystod y cyfnod adrodd, cyfeiriwyd 234 o ffeiliau achos i'r tribiwnlys. Mae paratoi pob ffeil tystiolaeth yn cymryd cryn amser gan fod angen adolygu a gwirio pob dogfen sy'n gysylltiedig ag unrhyw achos. Hefyd mae'n rhaid paratoi argymhelliad llawn yn nodi'r holl

ddadleuon sy'n cefnogi achos y cyngor. Cytunwyd â 52 o achosion gan y dyfarnwr, gwrthodwyd 72 ac ni heriwyd 110 o achosion gan y cyngor ar ôl adolygu'r amgylchiadau ac/neu ystyried unrhyw dystiolaeth liniarol ychwanegol a ddarparwyd.

- 6.9 Rhoddwyd terfyn ar 5,667 o'r achosion, o'r 42,342 o hysbysiadau o dâl cosb a gyflwynwyd, oherwydd derbyniwyd apêl neu nid oedd modd dilyn yr achos. Mae hyn yn 13.38% ac mae o fewn yr 20% y cawsom ein cyngori'n wreiddiol y byddai'n anadferadwy. Nid oes modd dilyn achos yn yr enghreifftiau canlynol: pan na ellid adnabod perchennog y cerbyd; neu pan fo asiantaeth orfodi yn dychwelyd achos i ni gan na allent sicrhau taliad.
- 6.10 Dylid nodi bod y manylion uchod yn berthnasol pan gyflwynwyd hysbysiad o dâl cosb yn unig. Mae'r gwasanaeth hefyd yn ymdrin â chryn ohebiaeth ychwanegol sy'n gysylltiedig â meysydd parcio ac ymholiadau am orfodi, etc. Dengys ein system monitro post fod 298 darn o ohebiaeth wedi'u cofnodi, gyda 258 yn cael eu hateb o fewn 10 niwrnod gwaith. Bydd peth o'r ohebiaeth drwy'r post sydd wedi'i monitro'n gysylltiedig â hysbysiadau o dâl cosb ac fe'i nodir yn y crynodeb uchod: dylid hefyd nodi'r posibilrwydd na fydd ffigurau monitro'r post yn cynnwys yr holl ohebiaeth e-bost y mae'r gwasanaeth wedi ymdrin â hi.
- 6.11 Oherwydd y math o waith y mae'n gwasanaeth yn ei wneud, rydym yn derbyn cryn ohebiaeth pan fo'r person yn datgan mai cwyn yw ei lythyr neu'i e-bost. Fodd bynnag, ystyrir llawer o'r rhain i fod yn apeliadau neu'n geisiadau am wasanaeth yn hytrach nag yn gwynion. Os nad yw'r ohebiaeth yn apêl neu'n gais am wasanaeth yna ymdrinnir â hi fel cwyn dan Bolisi Cwynion Corfforaethol y cyngor. Yn ystod 2015/16, roedd nifer y cwynion fel a ganlyn:

	Derbyniwyd	Cyfiawnhad	Cyfiawnhad Rhannol	Dim Cyfiawnhad
Meysydd				
Parcio	15	6	3	6
Gorfodi	64	14	8	42
Cyfanswm:	<b>79</b>	<b>20</b>	<b>11</b>	<b>48</b>

## 7 Adrodd Ariannol

- 7.1 Rhennir cyllideb y Gwasanaethau Parcio yn 3 maes yn y cyfrifon ac mae'r incwm a'r gwariant ar gyfer 2015/16 fel a ganlyn:

	<b>Meysydd Parcio</b>	<b>Gorfodi Parcio Sifil</b>	<b>Parcio a Theithio</b>	<b>Cyfanswm</b>
	<b>(26082)</b>	<b>(26081)</b>	<b>(26097)</b>	
	<b>£</b>	<b>£</b>	<b>£</b>	<b>£</b>
Gweithwyr	355,887	1,022,013	117,462	1,495,362
Adeiladau	1,310,887	7,364	194,523	1,512,774
Cludiant	43,537	3,375	-	46,912
Cyflenwadau a Gwasanaethau	173,997	224,388	626,853	1,025,238
Gorbenion	53,109	51,946	54,489	159,544
<b>Cyfanswm y Gwariant:</b>	<b>1,937,417</b>	<b>1,309,086</b>	<b>993,327</b>	<b>4,239,830</b>
<b>Cyfanswm yr Incwm:</b>	<b>3,161,826</b>	<b>1,399,740</b>	<b>503,509</b>	<b>5,065,075</b>
<b>Cyfanswm y Gwarged (Diffyg)</b>	<b>1,224,409</b>	<b>90,654</b>	<b>(489,818)</b>	<b>825,245</b>

7.2 Mae cyfrif y Gwasanaeth Gorfodi Parcio Sifil yn derbyn incwm o beiriannau talu ac arddangos ar y stryd a hysbysiadau o dâl cosb. Mae Tabl 3 isod yn nodi'r incwm o'r ffynonellau hyn. Mae'r incwm a geir o daliadau ar y stryd a gorfodi ar y stryd ac oddi ar y stryd yn destun cyfyngiadau a orfodir gan Is-adran 55 Deddf Rheoleiddio Traffig 1984, fel y'i diwygiwyd o fis Hydref 2004 gan Is-adran 95 Deddf Rheoli Traffig 2013 a Rheoliad 26 Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) 2013.

7.3 Mae Is-adran 2 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 yn nodi:

*(2) Ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, gwneir yn iawn am unrhyw ddiffyg yn y cyfrif o'r [gronfa gyffredinol][ neu, yng Nghymru, cronfa'r cyngor], ac (yn amodol ar is-adran (3) isod) caiff unrhyw warged ei ychwanegu at bob un o'r dibenion a nodir yn is-adran (4) isod neu unrhyw un ohonynt ac, i'r graddau na chaiff ei ychwanegu, fe'i defnyddir i gynnal prosiect penodol sy'n rhan o'r dibenion hynny a pharheir a hyn nes gorffen ei gyflawni.*

- 7.4 Mae'r rhan hon o'r ddeddfwriaeth yn clustnodi unrhyw warged ar gyfer dibenion penodol, gan gynnwys darparu neu gynnal parcio oddi ar y stryd, gwella priffyrdd a materion amgylcheddol.

Tabl 3

<b>Ffynhonnell Incwm</b>	<b>Incwm</b>
Hysbysiadau o dâl cosb: Ar y Stryd	£1,151,376
Hysbysiadau o dâl cosb: Oddi ar y Stryd	£237,934
Parcio ac arddangos ar y stryd	£10,430
Cyfanswm	£1,399,740

- 7.5 Cyfanswm y gwariant a gysylltir â'r gweithrediadau hyn, sy'n gwrthbwysu incwm o'r taliadau ar y stryd a thaliadau o Hysbysiadau o Dâl Cosb, oedd £1,309,086.
- 7.6 Felly adroddwyd bod gwaged o £90,654.
- 7.7 Fel a nodwyd ym mharagraff 7.3, mae'n rhaid defnyddio unrhyw warged at ddibenion penodol. Yn ystod y cyfnod adrodd, roedd y tri chynllun parcio a theithio a weithredir gan y cyngor wedi colli £489,818.

Mae Is-adran 4B Deddf 1984 yn nodi: *'talw costau'r awdurdod lleol yn llawn, neu'n rhannol, i ddarparu a chynnal a chadw [mannau parcio oddi ar y stryd, boed yn yr awyr agored neu dan do;]*

- 7.8 Mae safleoedd parcio a theithio yn darparu dewis pwysig i fodurwyr sy'n ymweld â'r ddinas unwaith neu'n rheolaidd. Yn ogystal â lleihau tagfeydd, mae'r safleoedd hyn yn lleihau llif y traffig i ganol y ddinas ac yn helpu i leihau lefelau llygredd, sy'n anodd eu rheoli ar lwybrau prifwythiennol i ganol y ddinas ac ohoni. Mae gwasanaethau Parcio a Theithio hefyd yn cefnogi'r gymuned fusnes drwy ddarparu maes parcio fforddiadwy i weithwyr a siopwyr yng nghanol y ddinas. Felly mae'n rhaid sicrhau bod gweithredoedd y gwasanaethau gwerthfawr hyn yn parhau.
- 7.9 Felly, defnyddir gwaged cyllideb y Gwasanaeth Gorfodi Parcio Sifil, sef £90,654, i gefnogi darparu gwasanaeth parcio a theithio'r ddinas.